Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
awdit.addysg@sirddinbych.gov.uk
01824 708064

Denbighshire County Council,
PO BOX 62, Ruthin, Denbighshire, LL15 9AZ
education.audit@denbighshire.gov.uk
01824 708064

Dyddiad/Date: 01/04/2020

| Annwyl Rieni a Gwarchodwyr | Dear Parents & Carers |
|---|---|
| **<u>Newidiadau i'r ddarpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych o ddydd Llun 6ed Ebrill 2020</u>** | **<u>Changes to Childcare Provision in Denbighshire from Monday 6th April 2020</u>** |
| O ddydd Llun 6 Ebrill bydd Cyngor Sir Ddinbych yn newid y model ar gyfer darparu gofal plant i weithwyr allweddol. Bydd y Cyngor yn gweithredu nifer llai o ganolfannau ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig sydd wedi'u lleoli'n strategol, yn agos at lwybrau traffig mawr mewn ardaloedd trefol a gwledig. | From Monday 6th April Denbighshire County Council will be changing its model for the provision of childcare for key workers. The Council will operate a smaller number of strategically located primary, secondary and special school hubs, close to major traffic routes in both urban and rural areas. |
| Bydd 5 hwb ardal yn cynnwys 17 safle ysgol. Dewiswyd adeiladau ysgolion oherwydd eu lleoliad, eu maint a chynllun eu dosbarthiadau, a hefyd er mwyn sicrhau gwasgariad y ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â lefel yr angen ar draws y Sir sydd o fewn cyrraedd hwylus i bawb. | There will be 5 area hubs made up of 17 school sites. School buildings have been chosen due to their location, their size and their classroom layout, and also to ensure a spread of provision linked to level of need across the County within easy reach. |
| Bydd ysgolion lleol yn cydweithio i redeg y ganolfan gofal plant yn yr ardal. Bydd hyn yn eu galluogi i adleoli staff a chreu rota o staff addysgu a chymorth i ofalu am y plant. Mae'r model hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i ailflaenoriaethu gwasanaethau arlwyo a chludiant ysgol hanfodol i gynorthwyo'r plant sy'n defnyddio'r canolfannau. | Local schools will work together to run the childcare in the area hub. This will enable them to redeploy and rota teaching and support staff to take care of the children. This model also allows the Council to re-prioritise its catering and essential school transport to support the children accessing the hubs. |
| Bydd pob hwb yn gweithredu o 8.00 a.m. – 3-30 p.m. Ar gyfer plant sydd o dan 3 oed bydd Canolfan y Dderwen ar gael o 8.00 am-6pm a bydd y darpariaethau i gyd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y plant yn cael eu bwydo am ddim – brecwast a chinio. Bydd y rhan fwyaf o rieni yn gallu danfon a nôl eu plant, ond os nad yw hyn yw'n bosibl, gall y Cyngor drefnu cludiant ar gais. Bydd trefniadau ar | The hubs will operate from 8.00 a.m. – 3-30 p.m.. For children who are under 3 years the Oaktree Centre will be available from 8.00am-6pm both provisions will be available Monday to Friday. Children will be fed free of charge – breakfast and lunch. Most parents will be able to drop off and collect their children, but if this is not possible, the Council can arrange transport on request. Arrangements for the Easter holidays will be available on the |

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.

Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
awdit.addysg@sirddinbych.gov.uk
01824 708064

Denbighshire County Council,
PO BOX 62, Ruthin, Denbighshire, LL15 9AZ
education.audit@denbighshire.gov.uk
01824 708064



| | |
|---|---|
| gyfer gwyliau'r Pasg ar gael ar wefan Sir Ddinbych o'r 1af Ebrill 2020.<br><br>Gallwn sicrhau rhieni nad yw cael llai o safleoedd yn golygu grwpiau mwy o blant gyda'i gilydd. Bydd gan ysgolion gynlluniau ar waith i gadw plant yn yr Hwb mewn grwpiau bach iawn mewn ystafelloedd dosbarth, ac yn ystod amser egwyl a phrydau bwyd. Byddant yn sicrhau y dilynir canllawiau pellhau cymdeithasol.<br><br>Mae bod mewn adeilad newydd nad ydynt yn gyfarwydd ag ef yn rhywbeth y gall rhieni a phlant fod yn bryderus yn ei gylch. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd plant o'r un ysgol yn cael eu rhoi gyda'i gilydd yn y grwpiau bach, felly byddant gyda rhywun y maent yn ei adnabod. Bydd staff o bob ysgol leol hefyd yn gweithio yn eu canolfan ardal, felly dylai fod wynebau cyfeillgar y bydd y plant yn eu hadnabod ym mhob Hwb.<br><br>Gan mai darpariaeth gofal plant ac addysg anstatudol yw hon, ni fydd canolfannau ar wahân ar gyfer cyfrwng Cymraeg nac ar gyfer ffydd. Bydd yr arferion arferol o ran diogelu plant yn parhau.<br><br>Bydd y broses gofrestru gychwynnol i rieni yn cael ei rheoli drwy'r ddolen ganlynol:-<br><br>http://www.denbighshire.gov.uk/key-worker-childcare<br><br>Bydd trefniadau bwcio dyddiol yn cael eu trefnu gan rieni drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â safle y Ganolfan ddewisiedig. Bydd canllawiau ar sut i wneud hyn yn cael eu rhannu gyda chi unwaith y byddwch wedi cofrestru ar-lein. | Denbighshire website from 1st April 2020.<br><br>We can assure parents that having fewer sites does not mean larger groups of children together. Schools will have plans in place to keep children in the hub sites in very small groups in classrooms, and during break and meal times. They will ensure that social distancing guidelines are followed.<br><br>Being in a new building that they are not familiar with is something parents and children might be anxious about. Wherever possible, children from the same school will be put together in the small groups, so there will be someone they know. Staff from each local school will also be working in their area hub so there should be friendly faces the children will recognise and be comforted by.<br><br>As this is a childcare provision and non-statutory education, there will be no separate hubs for Welsh medium or for faith. Usual practices around the safeguarding of children will continue.<br><br>The initial registration process for parents will be managed through the following **link**;-<br><br>http://www.denbighshire.gov.uk/key-worker-childcare<br><br>Daily booking arrangements will be organised by parents communicating directly with the chosen hub site. How to do this will be communicated to you once you have registered on line. |

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.

Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
awdit.addysg@sirddinbych.gov.uk
01824 708064

Denbighshire County Council,
PO BOX 62, Ruthin, Denbighshire, LL15 9AZ
education.audit@denbighshire.gov.uk
01824 708064

Dyddiad/Date: 01/04/2020

| | |
|---|---|
| Rhagwelwn y bydd rhieni fwy na thebyg yn defnyddio eu canolfan agosaf, ond os bydd canolfan arall yn fwy cyfleus oherwydd llwybrau teithio, gall rhieni ddewis hyn pan fyddant yn cofrestru.<br><br>Mae rhestr o safleoedd ysgolion sydd wedi'u dynodi fel Hybiau ardal wedi'u rhestru ar ddiwedd y llythyr hwn.<br><br>Os oes gennych bryderon neu ymholiadau, dylech eu cyfeirio nawr at eich pennaeth ' ysgol gartref ' sydd wedi eu briffio'n llawn ac sy'n barod i'ch cefnogi.<br><br>Mae'r Cyngor yn hyderus mai hwn yw'r model mwyaf cynaliadwy a gwydn i ddarparu'r gofal plant hwn sydd ei angen yn fawr, a bydd yn darparu'r adnoddau i'w gwneud yn llwyddiant. | We anticipate that parents will probably use their nearest hub but if another hub is more convenient because of travel routes, parents may select this when they register.<br><br>The list of school sites designated as hubs are listed at the end of this letter.<br><br>If you still have concerns or queries you should now direct them to your 'home school' headteacher who is fully briefed and ready to support you.<br><br>The Council is confident that this is the most sustainable and resilient model to deliver this much needed childcare, and will provide the resources to make them a success. |

| | Ardal / Area | Safle'r Hwb / Hub sites |
|---|---|---|
| 1 | Rhyl | Rhyl High School(**secondary only)**<br>Ysgol Emmanuel<br>Ysgol Tir Morfa<br>Ysgol Plas Cefndy<br>Ysgol Dewi Sant<br>Ysgol Y Castell<br>Ysgol Bryn Hedydd<br>Ysgol Llywelyn<br>The Oaktree Centre(0-3yrs only) |
| 2 | Prestatyn | Prestatyn High School(**secondary only**)<br>Ysgol Bodnant<br>Ysgol Y Llys |
| 3 | Llangollen | Ysgol Bryn Collen |
| 4 | Denbigh | St Brigid's( Secondary and Primary)<br>Ysgol Frongoch<br>Ysgol TwmO'r Nant<br>Ysgol Plas Bron Dyffryn |
| 5 | Ruthin | Ysgol Penbarras/Rhos Street |

Yn gywir / Yours faithfully,

**Karen I Evans**
Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Head of Education and Children's Service

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR | disability confident EMPLOYER

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith. Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so. For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.